# LC1404

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
|---|---|

## The Rice Products (Restriction on First Placing on the Market) (Wales) Regulations 2006

Mae’n ofynnol i’r Rheoliadau hyn weithredu Penderfyniad newydd gan y Comisiwn Ewropeaidd (Penderfyniad 2006/601/EC) ar fesurau brys yn ymwneud â’r organeb sydd wedi'i haddasu'n enetig na chaniateir "LL RICE 601" mewn cynnyrch reis. Cyhoeddwyd Penderfyniad y Comisiwn 2006/754/EC yn y Cyfnodolyn Swyddogol ar 6 Tachwedd 2006. Disgwylir i Aelod-Wladwriaethau gael gwybod am hyn yn fuan ac yna daw i rym ar unwaith. Bydd yn ddyletswydd ar Aelod-Wladwriaethau i sicrhau bod unrhyw lwythi o gynnyrch reis perthnasol yn cael eu cadw yn y man y bydd y cynnyrch yn cyrraedd yr UE hyd nes y cynhelir profion samplu a dadansoddi swyddogol am yr organeb sydd wedi'i haddasu'n enetig na chaniateir "LL RICE 601". Mae’n ofynnol i’r DU gyflwyno deddfwriaeth ddomestig i weithredu Penderfyniad y Comisiwn cyn gynted â phosib. Gan fod angen cyflwyno’r Rheoliadau hyn yng Nghymru cyn gynted â phosib, nid oedd modd dilyn gweithdrefnau deddfwriaethol arferol y Cynulliad. O ganlyniad i hyn, gwnaed y Rheoliadau yn Saesneg yn unig o dan y weithdrefn Weithredol ar 8 Tachwedd 2006 a daethant i rym ar 9 Tachwedd 2006.

## Rheol Sefydlog 11.7

Nodwyd y pwyntiau canlynol i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

Mae Rheoliad 4 yn ymwneud â gorfodaeth. Mae’n ddyletswydd ar awdurdodau bwyd anifeiliaid i weithredu a gorfodi’r Rheoliadau o ran bwyd anifeiliaid. Mae’r cyfreithiwr a ddrafftiodd y Rheoliadau wedi cadarnhau y dylai’r ddyletswydd a osodwyd ar awdurdodau bwyd o dan reoliad 4(2)

fod mewn perthynas â bwyd [food] a bod y cyfeiriad at fwyd anifeiliaid [feed] yn anghywir. [Rheol Sefydlog 11.7(v)].

Byddai'r mân wall drafftio hwn wedi bod yn addas i'w gywiro drwy gyfrwng Memorandwm Cywiriadau pe na bai'r Rheoliadau wedi cael eu gwneud o dan y weithdrefn Weithredol. O gofio bod y pwynt yn ymwneud â gorfodaeth, awgrymir y dylid gwneud deddfwriaeth ddiwygio cyn gynted â phosib.

Gwnaed y Rheoliadau yn Saesneg yn unig. [Rheol Sefydlog 11.7(viii)]

Hysbyswyd y Cynghorwyr Cyfreithiol bod y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi penderfynu nad oedd yn ymarferol i'r Rheoliadau gael eu gwneud yn ddwyieithog o fewn yr amserlen o gofio bod angen eu cyhoeddi ar frys.

## Sylwadau

Dim.

## David Melding AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

## 21 Tachwedd 2006